COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mawrth 8fed, 2017 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr R.H. Wyn Williams a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, Catherine Ll. Morris, R. Phillip Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr a ganlyn fuddiant personol yng ngheisiadau cynllunio:

- Erfyl W. Roberts – C16/1638/39/LL – Rose Lea, Lôn Engan, Aber-soch – bu'n gweithio yno
- Robert M. Jones – C17/0117/39/LL – Ty'n Morfa, Llanengan – cymydog; C17/0125/39/LL – Safle Hen Chwarel, Lôn Sarn Bach, Llanengan – perthynas i'r ymgeisydd
- O. Hefin Roberts – C17/0125/39/LL – Safle Hen Chwarel, Lôn Sarn Bach, Llanengan – perchennog ac ymgeisydd
- William B. Williams – C17/0159/39/LL – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch – perchennog tir mynedfa.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 8fed, 2017 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cwt Glan y Môr – Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng. Wyn Williams, er gwybodaeth, am gwt drws nesaf ond un i Gaffi Glan Môr y Golff – fe'i ail-adeiladir yn ddeulawr a heb ganiatád. Derbyniwyd cwynion a chynhelir cyfarfod safle ddydd Llun nesaf am 1.30 o'r gloch â swyddogion Cynllunio a Rheoleiddio.

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/1338/39/LL	Cais i ymgymryd â gwaith heb gydymffurfio â Chaniatâd Rhif C15/0761/39/LL (gosod ffenestr â gwydr afloyw), ynghyd â

chodi ffens derfyn a newidiadau i ddyluniau'r tŷ – Rose Lea, Lôn Engan, Aber-soch **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – EWR]**

C17/0096/39/LL Estyniad deulawr ochr – 1 Bryn Llawen, Llanengan – **Derbyniwyd dyfarniad cyn ei drafod heno – Caniatawyd ag amodau**

Derbyniwyd ateb i'r ymholiad am fwy o wybodaeth ond, fe'i caniatawyd cyn cyfarfod heno.

C17/0117/39/LL Adeiladu modurdy – Ty'n Morfa, Llanengan – **Cefnogir [Datgan Diddordeb – RMJ]**

C17/0118/39/LL Cais newid defnydd ar gyfer ail-leoli pedair carafán yn ardal 'T' (dim cynnydd mewn nifer), tirweddu a gwelliannau amgylcheddol – The Warren, Aber-soch **– Cefnogir**

C17/0124/39/LL Estyniad unllawr blaen a ffenestr gromen cefn – Bryn Rhosyn, 10 Cae Du, Aber-soch **– Cefnogir**

C17/0125/39/LL Adeiladu sied storio – Safle Hen Chwarel, Lôn Sarn Bach, Llanengan – **Cefnogir [Datgan Diddordeb – RMJ, OHR]**

C17/0152/39/LL Newid defnydd modurdy i ffurfio cyfleusterau 'tu ôl tŷ' staff yn gysylltiedig â'r siop, ynghyd ag addasiadau yn cynnwys blaen siop newydd – Adeilad Swyddfa'r Post, Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Cefnogir**

C17/0153/39/HY Gosod arwyddion i gynnwys un arwydd ffasgia ac un ar ganopi – Adeilad Swyddfa'r Post, Lôn Pen Cei, Aber-soch – **Cefnogir**

C17/0157/39/LL Cais i ymgymryd â gwaith heb gydymffurfio ag Amod Rhif 10 ar Ganiatâd Rhif C15/0616/39/LL – Carisbrooke, Aber-soch – **Cefnogir**

C17/0159/39/LL Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un tri llawr yn ei le – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch – **Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad sy'n gorlenwi safle amlwg ar graig a welir o bob cyfeiriad – môr a thir – ac sy'n anghymarus â gweddill y tai o'i amgylch. Mae'r lleoliad, hefyd, yn rhan o AHNE Llŷn ac Arfordir Treftadaeth [Datgan Diddordeb – WBW]**

C17/0175/39/LL Estyniad ochr a chefn, ymestyn llwyfan bren at flaen yr eiddo, creu teras i'r cefn a thirlunio – 8 Maes Awel, Aber-soch – **Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus Tyddyn Callod, Aber-soch**
Nis anfonwyd y ddogfennaeth at gyfreithiwr y Cyngor parthed drysau'r toiledau.

b) **Glanhau Afon Soch**
Anfonwyd y mesuriadau at y contractwr ond, ni dderbyniwyd ymateb nac anfoneb.

c) **Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018**
Derbyniodd y Clerc godiad cyflog ac ad-daliad y mis hwn, ynghyd â'r newid yn ei chytundeb gwaith, sef cynyddu ei horiau o ddeuddeg i dair awr ar ddeg yr wythnos.

ch) **Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch**
Anfonwyd copi o Reolau'r Fynwent at yr uchod ac ni dderbyniwyd ymateb. Trafodwyd y dylid ffensio rhan isaf y fynwent a'i osod fel tir pori. Buasai, hefyd, yn lleihau costau ei chynnal a chadw. Penderfynwyd trafod y mater ymhellach.

d) **Cyng. Wyn Williams – Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***
Cysylltwyd â'r noddwr i geisio trefnu dyddiad cyfarfod safle i'w drafod ymhellach; dim ond cydnabod derbyn e-bost a wnaeth.

ii) ***Parc Sglefrfyrddio***
Cydnabod derbyn e-bost wnaeth Phil Wood, Abersoch Watersports, hefyd ond, adroddodd y Cadeirydd y cafodd air ag o ac mae'n fodlon mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y cynllun.

[Gadawodd Cyng. John B. Hughes y cyfarfod ar ddiwedd y drafodaeth uchod.]

dd) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Derbyniwyd pris am gamera newydd (£580.00 + TAW); cysylltir â'r Heddlu i'w hysbysu ohono, gan iddynt addo cyfraniad ato yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr. Deallwyd hefyd yr argraffir yr arwyddion perthnasol ar hyn o bryd.

e) **Meddygfa Aber-soch (Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Eich Ardal Chi – Beth sy'n Bwysig?)**
Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad am sefyllfa ddiweddaraf y Feddygfa.

5. **CYFRIFON**

a) ***Swyddfa Archwilio Cymru – 'Webinair' a gynhaliwyd ar Chwefror 27ain***
Ni lwyddwyd cymryd rhan yn yr uchod – gweler cofnod 9. Gohebiaeth a) Un Llais Cymru isod.

b) ***Is-bwyllgor Ariannol***
Derbyniwyd llythyrau diolch am y cyfraniadau. Mynegodd O Ddrws i Ddrws yr ailedrychir ar gyfieithu ei gyfrifon yn dilyn ymholiad pam eu bod yn y Saesneg.

c) ***Adroddiad Diwedd y Flwyddyn Ariannol, Asesiad Risg a Llif Arian***

i) ***Adroddiad Ariannol a Llif Arian***
Dosbarthwyd taflen Llif Arian i bawb ac aethpwyd trwyddi. Adroddwyd bod:

- £46733.13 yn y Cyfrif Cyfredol
- £11275.65 yn y Cyfrif Cadw
- £1400.00 yng Nghyfrif y Fynwent

heb gyfrif taliadau a derbyniadau cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Disgwylir ad-daliad o £2000+ TAW am y flwyddyn ariannol hon.

ii) ***Asesiad Risg ac Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol***
Cynhaliwyd yr arbrawf a'r asesiad risg – fe'u cadarnhawyd gan y Cyngor a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

6. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd cais cynllunio.

7. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**
i) ***Mainc Sarn Bach*** – Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth Goleg Meirion Dwyfor Glynllifon. Adroddwyd mai côt o baent sydd ei angen fwyaf ar y fainc.
ii) ***Coed ger Ysgubor Wen*** – ni thociwyd y coed er cysylltu eto.

b) **Gwasanaeth Cyfreithiol – Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd (Ardal Dwyfor) 2017**
Dim gwrthwynebiad i'r uchod yn Aber-soch a Machroes:
- ffordd ddi-dosbarth Lôn Rhoslyn
- ffordd Ddosbarth 1 Stryd Fawr
- ffordd ddi-ddosbarth di-enw – rhwng Below a Tŷ Pren.

c) **Gwasanaeth Trafnidiaeth – Parth 20 m.y.a. Arfaethedig – Aber-soch, Borth y Gest a Llanbedrog**
Cais yn gofyn am sylwadau ar gyflwyno parth 20 m.y.a. tu allan i'r ysgolion uchod – dim gwrthwynebiad.

ch) **Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned**
Llythyr yn gwerthfawrogi a diolch am gytuno i bartneriaeth ar y cyd â'r Cyngor i gadw'r uchod ar agor, ynghyd â dau gopi cytundeb i'w harwyddo – dychwelyd un a chadw'r llall. Ysgrifennir i fynegi siomedigaeth o weld cynifer o wallau iaith mewn dogfen gyfreithiol. Anfonir anfoneb cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf pan dderbynnir cytundeb wedi'i arwyddo. Pwysleisiwyd y dylid sicrhau y gosodir peiriannau talu yn y toiledau cyn yr ystyria'r Cyngor fod yn gyfrifol amdanynt o'r flwyddyn ariannol 2018 ymlaen.

8. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Cyfarfu Huw Jones, Rhydyclafdy, â'r Is-gadeirydd i drafod y ffens; adroddwyd mai un newydd sydd ei angen ac atgyweirio a phaentio'r llall.

b) ***Torri'r Llwybrau 2017***
Awgrymodd Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, y dylid ailedrych ar beth sydd angen ei dorri, efallai dangos union leoliad pob llwybr, e.e. o Bwynt A i Bwynt B yn unig. £500.00 y tro yw cost torri'r Clawdd Mawr. Penderfynwyd eisoes y bwriedir torri pobl llwybr Categori 1 a 2 yn y gymuned. Atgoffodd mai £2438.50, sef 50% o gostau cyfartalog (dros y pum mlynedd diwethaf) a ad-delir yn y flwyddyn ariannol nesaf.
Yn anffodus, ni dderbyniwyd tendr am dorri'r llwybrau er yr holodd dau am fanylion ar ôl hysbysebu yn *Llanw Llŷn* (derbyniwyd anfoneb am £14.25 – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Penderfynwyd hysbysebu'n *Y Ffynnon* hefyd. Yn dilyn sgwrs â chontractwr arferol y Cyngor, dywedodd y bodlonai gynorthwyo mewn unrhyw fodd yn y dyfodol, hyd yn oed wrth rannu'r gwaith. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai pawb feddwl am gontractwyr a gofyn os oes ganddynt ddiddordeb yn y gwaith.

9. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Aelodaeth 2017 – 2018***
Penderfynwyd parhau â'r aelodaeth am £493.00 – gweler 11. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

ii) ***Arolwg Coed – Siarter Coed 2017***
Copi o'r uchod – fe'i atebwyd.

iii) ***Rheolaeth Ariannol a Llywodraethiant mewn Cynghorau Cymuned a Thref***
Hysbyseb o 'weminar' i rannu enghreifftiau o ddysgu ac arfer da, yn arbennig cyllidebu ac archwilio mewnol a gynhaliwyd ar Chwefror 27ain. Yn anffodus, ni allai'r Clerc ymrwymo i'r amser oherwydd galwadau teuluol. Deallwyd mai yn y Saesneg y'i cynhelid a derbyniwyd ateb oddi wrth Swyddog Datblygu'r Gogledd yn cydnabod y gwrthwynebiad. Gofynnir i bawb a fynegodd wrthwynebiad ysgrifennu i ategu cwyn ULlC.

iv) ***Digwyddiad ar y Cyd rhwng ULlC a'r SLCC***
Cynhelir yr uchod yng Ngwesty Village St. David, Ewlo ar Orffennaf 12fed.

v) ***Arolwg 2018 – Ail Gyfnod Ymgynghori Comisiwn Ffiniau i Gymru***
Hysbysu'r uchod a ddaw i ben ar Fawrth 27ain.

vi) ***Swyddfa Archwilio Cymru – Rhaglen Digwyddiadau Cyfnewidfa Arfer Da***
Rhestr o'r uchod a gynhelir yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf – ni chynigir yr un ohonynt yn y Gymraeg.

vii) ***Bwletin mis Chwefror***
Argraffwyd ambell daflen/ddogfen o'r uchod er gwybodaeth, yn arbennig y rhai ariannol sy'n trafod rhaglen a themâu archwiliadau allanol 2016 – 2021.

viii) ***Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor***
Rhaglen a chofnodion yr uchod a gynhelir ym Mhlas Heli, Pwllheli, nos Fercher, Mawrth 22ain am saith o'r gloch.

b) **Llywodraeth Cymru – Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2017 – 2018**
Copi o'r uchod er gwybodaeth – Adran 13 yn ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned.

c) **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd**
Hysbysiad o gynnal arolwg o'r uchod. Daw'r ymgynghoriad i ben ar Fai 31ain. Derbyniwyd copi o gyflwyniad y Comisiwn i Gyngor Gwynedd er gwybodaeth.

ch) **Ymgynghoriaeth Gwynedd – Rheolaeth Adeiladu, Adran 81, Deddf Adeiladu 1984**
Hysbysiad o fwriad i ddymchwel Pen-y-Ffordd, Yr Harbwr, Aber-soch.

d) **Grŵp Cynefin – Cartrefi Fforddiadwy Stád Cornwall, Mynytho**
Cynhelir diwrnod agored arall ddydd Sadwrn, Mawrth 25ain rhwng un ar ddeg a dau o'r gloch. Deil pedwar plot ar ôl ac fe'u hysbysebir trwy Ddwyfor bellach gan nad oes digon o ddiddordeb wedi bod gan unigolion yn y gymuned.

dd) **Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol – Holiadur Cydnerthu/Gwydnwch Cymunedol**
Holiadur ar adnabod peryglon a gwneud cynlluniau syml a sut gall cymunedau gynorthwyo asiantaethau sy'n ymateb pe digwyddai argyfwng.

e) **Swyddog Gweithredol Llesiant Cyngor Gwynedd – Holiadur DEWIS Cymru**
Hysbysiad am wefan newydd ar gyfer gwybodaeth ynglŷn â Llesiant.

f) **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. – Rali Goffa Merfyn Hughes/Llŷn**
Gwybodaeth am yr uchod a gynhelir ar Fawrth 18fed-19eg.

ff) **Cartrefi Cymunedol Gwynedd – 1 Cefn Carmel, Mynytho**
Hysbyseb o'r uchod sydd ar gael i'w rentu.

g) **Broad Oak Properties – Cynllun ECO (Rhwymedigaeth Lleihau Cost Cynhesu'r Cartref, rhan o Rwymedigaeth Cwmni Ynni)**
Gwybodaeth am y cynllun uchod. Petai trigolion yn cael boeler newydd rhy'r cwmni gyfraniad ariannol i'r Cyngor.

ng) **Swyddog Canlyniadau – Etholiadau Cynghorau Cymuned/Tref**

- Pecynau enwebu i'r aelodau presennol a ddymuna ymgeisio yn yr uchod – angen eu dychwelyd i Swyddfa'r Cyngor ym Mhwllheli rhwng Mawrth 20fed a diwedd y cyfnod enwebu sef, pedwar o'r gloch, Ebrill 4ydd. Amgaewyd copi o'r Rhybuddion Etholiad i'w harddangos o'r dyddiad cyhoeddi, sef Mawrth 17eg.
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng. Thelma Cordingley'n ymddiheuro am ei habsenoldeb heno ac yn hysbysu, oherwydd gofynion gwaith, na all barhau fel cynghorydd dros Ward Aber-soch. Ychwanega y mwynhaodd ei chyfnod yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

h) **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Datganiad Newyddion – Dementia: Un Peth Syml**

Copi o'r uchod, sef cwestiwn syml i bobl a brofodd ddementia yn eu bywydau neu eu gofalwyr. Defnyddir yr atebion i ddatblygu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Strategaeth Ddementia i Gymru.

i) **Nimbus Lightning Protection Ltd. – Corn Tanrallt**

Cysylltwyd â'r uchod yn dilyn derbyn llythyr yn hysbysu y prynwyd y cwmni gan PTSG Electrical Services Ltd. i ofyn pryd bwriedir dod i brofi'r Corn, gan na wnaethpwyd ers rhai blynyddoedd bellach. Derbyniwyd ateb i ddweud y cysylltir â dyddiad maes o law.

10. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C16/0968/39/CR Addasu adeilad allanol yn uned wyliau – Ty'n y Cae, Llangian – **Caniatawyd ag amodau**

C16/0969/39/LL Addasu adeilad allanol yn uned wyliau – Ty'n y Cae, Llangian – **Caniatawyd ag amodau**

C16/1085/39/LL Dymchwel tŷ ac adeilad allanol presennol ac adeiladu tŷ annedd newydd a gwaith cysylltiol – Tŷ Mawr Cottage, Tŷ Mawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

C16/1336/39/LL Tŷ newydd dwy lofft a gwaith cysylltiedig – Anhywel, Lôn Pont Morgan, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

Derbyniwyd e-bost oddi wrth Cyng. Wyn Williams yn hysbysu, er cefnogaeth ardderchog yn y Pwyllgor Cynllunio, y collwyd pleidlais o 8 i 7 ar y cais uchod.

C16/1535/39/LL Newid defnydd tir i ymestyn gardd, creu llecyn gwastad a man troi cerbydau – Y Felin, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**

C16/1578/39/LL Dymchwel tŷ ac adeiladau allanol cysylltiedig ac adeiladu dwy annedd a datblygiad cysylltiedig – Glenville, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

Cysylltwyd â'r Adran Gynllunio i fynegi siomedigaeth o weld y dyfarniad uchod, gan na dderbyniwyd ateb i'r cwestiwn a ofynnwyd wrth anfon sylwadau'r Cyngor ar y cais, sef a oes polisi yn caniatáu dymchwel un tŷ ac adeiladu dau ar yr un safle – cysylltwyd eto.

C16/1640/39/LL	Adeiladu sied bren – Pentraeth, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1665/39/LL	Estyniad ochr arfaethedig – Bodnant, Bwlchtocyn – **Gwrthodwyd**
C17/0096/39/LL	Estyniad deulawr ochr a gwelliannau i'r fynedfa bresennol (cynllun diwygiedig i'r un a wrthodwyd yn flaenorol) – 1 Bryn Llawen, Llanengan – **Caniatawyd ag amodau**
C17/0111/39/DA	Diwygiad ansylweddol i ganiatâd cynllun rhif C02D/0358/39/LL er mwyn addasu dyluniad y to – Fferm Nant, Lôn Coed y Fron, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**

11. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Mawrth y Clerc (Rh/S 002052), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £91.40 (Rh/S 002048 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)
b) Cymdeithas *Llanw Llŷn* – £14.25 (Rh/S 002049 – Hysbyseb Torri Llwybrau)
c) Un Llais Cymru – £493.00 (Rh/S 002051 – Tâl Aelodaeth 2017 – 2018)

Derbyniadau

a) Toiledau – £10.50 (Tâl Mynediad)
b) Llechen Llŷn – £160.00 (Penfaen Bedd)
c) npower Business – £14.97 (Credyd Trydan y Toiledau)
ch) G.D. Roberts & Son – £270.00 (Bedd Newydd)

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ebrill 12fed, 2017 am saith o'r gloch